# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

## Sut yr ydym yn cefnogi yn Ysgol Glanrafon

Mae gan Ysgol Glanrafon **Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)** yn ogystal â thîm o Gynorthwywyr Cymorth Dysgu sy'n darparu amrywiaeth o ymyriadau i ddisgyblion sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion penodol disgyblion, sy'n cynnwys ymyriadau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal ag amrywiaeth o ymyriadau llesiant, e.e. datblygu mwy o lythrennedd emosiynol trwy ymyrraeth ELSA.

### Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)

Rôl y **Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol** yw adnabod a chefnogi'r plant hynny sydd ag anghenion penodol, boed yn dysgu, yn gorfforol neu'n feddygol, sydd angen cymorth ychwanegol i gael mynediad i addysg a chyrraedd eu llawn botensial.

### Ymateb Graddedig

Yn **Ysgol Glanrafon** rydym yn darparu ar gyfer anghenion eich plentyn trwy ddilyn **ymateb graddedig.** Defnyddir hwn i addasu darpariaeth neu strategaethau i weddu i anghenion eich plentyn. Lle mae angen cymorth pellach, efallai y bydd asiantaethau allanol yn cymryd rhan. Bydd yr ysgol yn cysylltu â chymorth allanol drwy'r **Cydlynydd ADY**, e.e. Seicolegydd Addysg i gynorthwyo'r athro dosbarth i weithredu unrhyw gyngor a roddir.

### Darpariaeth Gyffredinol

Gellir ddarparu ar gyfer anghenion y rhan fwyaf o blant trwy addysgu a dysgu o ansawdd uchel gydag addysgu gwahaniaethol neu gymorth arall wedi'i dargedu i helpu'ch plentyn i wneud cynnydd. Cyfeirir at hyn fel Darpariaeth Gyffredinol ac mae ar gael i bob plentyn. Gellir ei ddarparu ar lefel dosbarth cyfan, grŵp bach neu unigol. Mae'n cael ei fonitro a gallai fod yn ddarpariaeth tymor byr neu hir dymor.

Cyn gynted mae athro dosbarth yn darganfod bod plentyn yn dangos arwyddion o beidio â gwneud cynnydd disgwyliedig neu fod ag anawsterau dysgu bydd yn rhannu ei bryderon â rhieni/gofalwyr. Yna hysbysir y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY). Gwahoddir rhieni/gofalwyr i gwrdd â'r athro dosbarth a/neu Gydlynydd ADY. Mae rhieni/gofalwyr hefyd yn gallu codi pryderon gyda'r athro dosbarth.

Cynhelir asesiadau i ganfod unrhyw rhwystr penodol i ddysgu. Bydd yr athro dosbarth a'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn penderfynu pa gymorth ychwanegol a fyddai o fudd i'r plentyn hwnnw. Efallai y byddant yn cael cymorth pellach yn treulio peth amser naill ai mewn sefyllfa grŵp bach neu fel unigolion gydag aelod o staff o'r ysgol.

Mae'n bwysig cofio bod plant yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, a gall eu hanghenion newid dros amser. Trwy gylchred barhaus o nodi anghenion a rhannu gwybodaeth, cynllunio, gweithredu ac adolygu cynnydd, gellir nodi a darparu gwahanol gefnogaeth yn ôl yr angen. Gallai'r cymorth gael ei gynyddu, ei leihau neu ei newid dros amser yn unol â chynnydd unigol eich plentyn.

Os gofynnir, gallwn ddechrau ystyried a oes gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud o fewn 35 diwrnod ysgol, oni bai bod yr ysgol angen asesiad arbenigol pellach trwy'r awdurdod lleol neu'r Gwasanaethau Iechyd, ac os felly efallai y bydd angen 12 wythnos arall. Mae ystod eang o anawsterau neu anableddau dysgu, ond gellir eu dosbarthu'n fras i'r pedwar maes canlynol: a. Cyfathrebu a rhyngweithio; b. Gwybyddiaeth a dysgu; c. ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol; ch. Synhwyraidd a/neu gorfforol.

## Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Darpariaethau Dysgu Ychwanegol (DDY)?

Bydd gan rhai plant ADY (anhawster dysgu neu anabledd), sy'n gofyn am Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY). Os yw'n ymddangos nad yw'ch plentyn yn gwneud cynnydd yn dilyn yr ymateb graddedig, yna efallai y bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd hyn yn golygu nodi anghenion eich plentyn mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gallai arwain at ddarpariaeth gwahanol i'w helpu i wneud cynnydd.

Mae gan ddysgwr ADY os oes ganddant anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDY). Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd os yw ef neu hi:

1. yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o rai eraill o'r un oedran, neu

2. ag anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg pellach.

## Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Mae'r plant sydd angen DDdY yn cael eu adnabod fel rhai ag ADY ac felly bydd angen Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Mae Cynllun Datblygu Unigol, neu CDU, yn cymryd lle Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig ac mewn rhai achosion Cynlluniau Addysg Unigol. (CAU)

### Sut mae'r CDU yn cael ei lunio?

Cynhelir Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn er mwyn sicrhau bod dysgwyr a'u teuluoedd yn cael eu gosod yng nhanol y gwaith cynllunio, adolygu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig yn eu bywydau, a'r gefnogaeth, sef y ddarpariaeth ychwanegol, sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu dyheadau.

### Pwy fydd yn bresennol?

Fel arfer, bydd pawb sy'n gweithio gyda'r plentyn yn cael eu gwahodd i fynychu, e.e. rhieni/gofalwyr, plentyn, Cydlynydd ADY, Seicolegydd Addysg, Iechyd, Cynorthwyydd Addysgu, Athro Dosbarth, h.y. unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n cyfrannu at gymorth y plentyn. Gall y cyfarfod Adolygu Person-ganolog gymryd hyd at 90 munud.

Bydd gofyn i chi drafod...

- Beth rydych chi'n ei werthfawrogi am eich plentyn
- Eich dyheadau ar gyfer eich plentyn
- Beth sy'n bwysig i'ch plentyn
- Beth sy'n bwysig ar gyfer eich plentyn
- Y ffordd orau i gefnogi eich plentyn
- Beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio o'ch safbwynt chi
- Unrhyw gwestiynau sydd gennych.

## Ar ddiwedd yr adolygiad

Erbyn diwedd yr adolygiad bydd pawb wedi cytuno ar ganlyniadau ac ar gamau gweithredu y mae angen eu cyflawni. Bydd y CDU yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn ôl yr angen a phob 12 mis o leiaf.

Mae'r CDU hyn wedi'u cynllunio i amlinellu ADY eich plentyn, ei ddyheadau a'i dargedau. Bydd mwyafrif y CDU hyn yn cael eu hysgrifennu a'u cynnal gan ysgolion. Mewn rhai achosion mwy cymhleth gall ysgolion ofyn i'r awdurdod lleol ystyried anghenion y plentyn. Os canfyddir bod yr anghenion hyn yn gymhleth ac angen mewnbwn arbenigol, gall yr awdurdod lleol ysgrifennu'r CDU ac yna naill ai gyfarwyddo'r ysgol i gynnal y cynllun neu ei gynnal ei hun.

Mae'n bosibl i blentyn gael anhawster dysgu neu anabledd nad yw'n galw am DDdY. Yn yr achosion hyn ni fyddai plentyn o'r fath yn cael ei ystyried ag ADY. Mae'n bwysig nodi na fydd pob anhawster neu anabledd dysgu sy'n deillio o gyflwr meddygol yn galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

## Gwefannau a gwybodaeth ddefnyddiol

https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/Children--Young-People-with-Additional-Learning-Needs.aspx

https://gov.wales/additional-learning-needs

https://gov.wales/additional-learning-needs-aln-system-guide-parents-and-families

https://gov.wales/additional-learning-needs-aln-system-childrens-guide

https://www.snapcymru.org/